CYHOEDDIAD

# Cylchlythyr demograffeg Ystadegau Cymru: Mehefin 2023

Cylchlythyr Mehefin 2023 ar gyfer defnyddwyr ystadegau Cymru ar yr ystadegau diweddaraf am boblogaeth, mudo, cartrefi a'r Gymraeg.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 2 Mehefin 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 2 Mehefin 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mehefin-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Y gofrestr etholiadol

Cyfrifiad 2021

Mudo rhyngwladol hirdymor

Ymgynghoriad amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol

Cynlluniau ar gyfer amcangyfrifon mudo a phoblogaeth yr SYG

Creu set ddata wedi’i theilwra

Ystadegau’r Gymraeg

Manylion cyswllt



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mehefin-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Y gofrestr etholiadol

Ar 20 Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bennawd ystadegol ynghylch **ystadegau'r gofrestr etholiadol ar gyfer Cymru yn 2022**.

Cyfrifon blynyddol o nifer y bobl sydd wedi eu cofrestru ar gofrestrau etholiadol, ac felly â'r hawl i bleidleisio, yw ystadegau etholiadol. Mae **ystadegau'r gofrestr etholiadol ar gyfer etholiadau Seneddol y Deyrnas Unedig (DU) ac etholiadau llywodraethau lleol y DU (Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG))** (Saesneg yn unig) ar gael ar wefan y SYG.

Mae'r SYG wedi nodi nad yw'r ystadegau hyn yn **adlewyrchu'r newidiadau i feini prawf cymhwysedd ar gyfer etholiadau Seneddol nac etholiadau llywodraethau lleol yng Nghymru ers 2020**. O ganlyniad, nid yw cofrestriadau etholiadol llywodraeth leol ar gyfer unigolion sy'n cael eu pen-blwydd yn 16 oed a 15 oed, yng Nghymru, wedi'u cynnwys yn yr ystadegau hyn. O ganlyniad, nid ydym wedi cyhoeddi etholwyr y Senedd na llywodraethau lleol yng Nghymru, ac nid ydym wedi gallu diweddaru ein tablau **StatsCymru**.

## Pwyntiau allweddol

- Cyfanswm nifer etholwyr Seneddol y Deyrnas Unedig a oedd wedi cofrestru i bleidleisio ar 1 Rhagfyr 2022 yng Nghymru oedd 2,304,700.
- Mae hyn yn ostyngiad o 0.1% rhwng 1 Rhagfyr 2021 ac 1 Rhagfyr 2022, ac yn ostyngiad o 0.8% o'r nifer fwyaf a gofnodwyd ar 2 Mawrth 2020.
- Bu gostyngiad o 0.2% rhwng 1 Rhagfyr 2021 ac 1 Rhagfyr 2022 i gyfanswm nifer etholwyr seneddol y DU a oedd wedi cofrestru i bleidleisio yn y DU.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mehefin-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cyfrifiad 2021

Mae SYG wedi parhau â'i dadansoddiad o ddata Cyfrifiad 2021. Mae hyn yn cynnwys y dadansoddiad a gyhoeddwyd o:

- **mudo rhyngwladol byrdymor (SYG)** (Saesneg yn unig)
- **poblogaeth myfyrwyr rhyngwladol (SYG)** (Saesneg yn unig)
- **y boblogaeth hŷn (SYG)** (Saesneg yn unig)
- **pobl ag ail gyfeiriad (SYG)** (Saesneg yn unig)
- **teuluoedd (SYG)** (Saesneg yn unig)
- **priodasau (SYG)** (Saesneg yn unig)
- **teuluoedd ac aelwydydd yn y DU (SYG)** (Saesneg yn unig)
- **nodweddion aelwydydd yn ôl deiliadaeth a daearyddiaeth is-genedlaethol (SYG)** (Saesneg yn unig)
- **ystadegau poblogaeth a mudo, pwy ddylem ni eu cyfrif? (SYG)** (Saesneg yn unig)

Mae'r cyhoeddiadau sydd i ddod yn cynnwys:

- **amcangyfrifon ar gyfer y bobl hen iawn, gan gynnwys y bobl canmlwydd oed (SYG)** (rhwng Mai a Mehefin) (Saesneg yn unig)
- deall mudo rhyngwladol dros y degawd rhwng 2011 a 2021

## Mudo rhyngwladol hirdymor

Ar 25 Mai, rhyddhaodd **yr SYG amcangyfrifon arbrofol ac amodol ar gyfer ystadegau mudo rhyngwladol y DU** (Saesneg yn unig). Roedd yr amcangyfrifon hyn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2020 a'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2022.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mehefin-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Pwyntiau allweddol

- Amcangyfrifwyd bod cyfanswm y mewnfudo hirdymor oddeutu 1.2 miliwn yn 2022, ac allfudo yn 557,000, sy'n golygu bod mudo yn parhau i ychwanegu at y boblogaeth gyda mudo net yn 606,000; roedd y rhan fwyaf o’r bobl a gyrhaeddodd y DU yn 2022 yn wladolion y tu allan i’r Undeb Ewropeaidd (UE) (925,000), ac yna’n wladolion yr UE (151,000) a Phrydeinwyr (88,000).
- Mae pobl sy'n dod i'r DU o wledydd y tu allan i'r UE ar gyfer gwaith, astudio, ac at ddibenion dyngarol, gan gynnwys digwyddiadau unigryw fel y rhai sy'n cyrraedd o Wcráin a Hong Kong, wedi cyfrannu at lefelau cymharol uchel o fewnfudo dros y 18 mis diwethaf; fodd bynnag, mae twf wedi arafu dros y chwarteri diweddar, gan ddangos o bosibl natur dros dro yr effeithiau hyn.
- Newidiodd cyfansoddiad mewnfudo o'r tu allan i'r UE yn 2022, gyda 39% o bobl yn cyrraedd am resymau'n ymwneud ag astudio, i lawr o 47% yn 2021; cynyddodd y rhai a gyrhaeddodd ar lwybrau dyngarol (gan gynnwys cynlluniau Wcrain) o 9% i 19% dros yr un cyfnod.
- Mae tystiolaeth yn awgrymu bod myfyrwyr fel arfer yn aros am gyfnodau byrrach na mudwyr eraill a bod y mwyafrif yn gadael ar ddiwedd eu hastudiaeth; mae’r data diweddaraf yn dangos bod y rhai a gyrhaeddodd am resymau astudio yn 2021 bellach yn dechrau gadael, gan arwain at gynnydd yng nghyfanswm yr ymfudo o 454,000 yn 2021 i 557,000 yn 2022.
- Mae’r arafu mewn mewnfudo a’r cynnydd mewn allfudo yn golygu bod lefelau mudo net wedi sefydlogi yn y chwarteri diweddar; amcangyfrifir bod 606,000 yn fwy o bobl wedi cyrraedd y DU yn y tymor hir nag a ymadawodd yn y flwyddyn a ddaeth i ben fis Rhagfyr 2022, 118,000 yn uwch na’r flwyddyn flaenorol, ond yn debyg i lefelau yn y flwyddyn a ddaeth i ben fis Mehefin 2022.

**Mae SYG hefyd wedi cyhoeddi diweddariad ar gynnydd ar ymchwil i fudo rhyngwladol** (Saesneg yn unig).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mehefin-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Ymgynghoriad amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol

Ar 22 Mai, cyhoeddodd y **SYG eu hymateb i'r ymarfer ymgysylltu â defnyddwyr** (Saesneg yn unig) ar **fethodoleg amcanestyniad marwolaethau newydd (SYG)** (Saesneg yn unig) ar gyfer amcanestyniadau poblogaeth cenedlaethol. Cafodd yr ymarfer ei gynnal rhwng 9 Ionawr ac 20 Chwefror 2023, ac roedd yn rhan o'u strategaeth i adolygu a gwella eu dulliau yn barhaus.

## Cynlluniau ar gyfer amcangyfrifon mudo a phoblogaeth yr SYG

Yn sgil materion ansawdd ynghylch rhywfaint o'r data a ddefnyddir ar gyfer yr elfen o fudo mewnol, caiff amcangyfrifon poblogaeth canol 2022 ar gyfer Cymru a Lloegr eu cyhoeddi ym mis Medi yn hytrach nag ym mis Mehefin/Gorffennaf. Mae'r SYG hefyd wedi datgan y bydd yn cyhoeddi amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn diwygiedig ar gyfer y cyfnod canol 2012 i ganol 2020 ym mis Medi, gan gymryd amcangyfrifon o Gyfrifiad 2021 i ystyriaeth.

Bydd amcangyfrifon poblogaeth diwygiedig canol 2021 ar gyfer y DU hefyd yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi, tra bod amcangyfrifon poblogaeth o'r Model Poblogaeth Dynamig ar gyfer Cymru a Lloegr wedi'u cynllunio ar gyfer mis Mehefin. I gael rhagor o wybodaeth, gweler **cynlluniau dros dro ar gyfer cyhoeddi'r amcangyfrifon poblogaeth a mudo diweddaraf (SYG)** (Saesneg yn unig).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mehefin-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Creu set ddata wedi'i theilwra

Ar 28 Mawrth, cyhoeddodd y SYG luniwr tablau hyblyg ar gyfer data Cyfrifiad 2021. Caiff ei alw hefyd yn adnodd **Creu set ddata wedi'i theilwra (SYG)** (Saesneg yn unig).

Am y tro cyntaf, mae hyn yn caniatáu i ddefnyddwyr chwilio am ryngweithiadau rhwng pynciau sy'n bwysig iddyn nhw gan adeiladu eu setiau data eu hunain. **Mae'r SYG wedi cyhoeddi blog i gyd-fynd â'r adnodd hwn** (Saesneg yn unig), sy'n cynnwys fideo byr yn esbonio sut i greu eich setiau data wedi'u teilwra eich hunain.

## Ystadegau'r Gymraeg

I gael gwybodaeth am ystadegau'r Gymraeg, gweler **diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru**.

## Manylion cyswllt

### Martin Parry

Rhif ffôn: 0300 025 0373

E-bost: **ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mehefin-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cyfryngau

Rhif ffôn: 0300 025 8099

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cylchlythyr-demograffeg-ystadegau-cymru-mehefin-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.